



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Penygelli Hall**

**Penygelli Hall  
Penygelli Avenue Coedpoeth  
Wrecsam  
LL11 3RL**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

27/09/2023

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

*Rhaid i chi atavnhwrchu ein deunydd yn fanwl gwir a nheidio â'i ddefnyddio mewn cwl-destun*

# Penygelli Hall

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Penygelli Care Homes Ltd
Lleuedd cofrestredig	24
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	18 Medi 2019
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn Penygelli Hall. Mae'r staff gofal yn deall anghenion y bobl ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd ystyrlon. Mae'r bobl yn canmol y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys y bwyd, y gweithgareddau a'r teithiau. Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwasanaeth yn awyddus i recriwtio cydlynedd gweithgareddau er mwyn darparu gweithgareddau mwy rheolaidd.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth. Maent yn cael eu hyfforddi a'u goruchwyllo'n rheolaidd a dywedodd bod y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda ac yn ymweld yn rheolaidd.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn daclus ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Cynhelir gwiriadau iechyd a diogelwch yn rheolaidd ac maent yn gyfredol. Mae'r darparwr gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth, gyda gweithiau atgyweirio yn cael eu cynllunio.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gall y bobl ddewis sut i dreulio eu diwrnod. Mae hyn yn cynnwys mynd allan i'r gymuned yn annibynnol. Mae cyfarfodydd rheolaidd y preswylwyr yn rhoi cyfle iddynt leisio eu barn ar bethau fel y fwydlen, ymweliadau, gweithgareddau ac addurniadau. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff gofal yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn eu trin ag urddas a pharch. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn hybu annibyniaeth. Caiff y bobl eu cynnwys yn y broses o adolygu eu cynlluniau personol. Os mai'r Gymraeg yw mamiaith y bobl sy'n byw yn y cartref, mae rhai aelodau o'r staff gofal yn siarad Cymraeg a gellir darparu dogfennau penodol yn Gymraeg.

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Cawsom adborth cadarnhaol gan y bobl am y gweithgareddau a'r teithiau pan maent yn mynd rhagddynt. Mae'r cynlluniau gofal yn adlewyrchu hoff bethau a diddordebau'r bobl, a chânt eu cefnogi i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r bobl yn siarad yn gadarnhaol am y bwyd, a dywedodd ei fod yn hyfryd. Mae ganddynt ddewisiadau a gallant ofyn am ddewis arall os y dymunant. Gwelsom fod y bobl yn gallu cael gafael ar gyfarpar arbenigol os bydd angen, gan gynnwys cymhorthion i'w helpu yn ystod amser prydau. Yn ystod arsylwad amser pryd, gwelsom y staff gofal yn cynnig gwahanol opsiynau a mwy o fwyd i'r bobl.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â'r rhai sy'n bwysig iddynt. Siaradodd y perthnasau sy'n ymweld yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym fod eu teulu a'u ffrindiau yn ymweld yn rheolaidd. Gwelsom bobl yn mynd allan am y dydd gyda'u teulu.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae polisïau diogelu a chwythu'r chwiban yn rhoi gwybod i'r staff gofal am y broses o sut i godi pryder ac yn cynnwys hawliau'r bobl i gael eiriolwr. Mae'r staff gofal wedi cael y hyfforddiant diogelu diweddaraf ac maent yn gyfarwydd â pholisi diogelu'r gwasanaeth.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n eu cefnogi i gyflawni eu nodau personol. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd a gwnaethant ddweud eu bod yn eu hoffi. Caiff y dodrefn ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae cynlluniau ar waith i adnewyddu'r ystafell ymolchi sydd i lawr y grisiau.

## Gofal a Chymorth

Darperir gofal a chymorth i'r bobl yn unol â'u safbwyntiau a'u dymuniadau personol. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn a chânt eu cynhyrchu gyda'r unigolyn yn cael cymorth. Cyn cytuno i ddarparu'r gwasanaeth, caiff asesiadau cyn derbyn manwl eu cwblhau i sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r cynlluniau personol yn hybu annibyniaeth ac arferion cymryd risgiau cadarnhaol, sy'n annog y bobl i wneud yr hyn y gallant. Mae'r staff gofal yn gweithio o'r cynlluniau personol hyn sy'n rhoi gwybod iddynt yn glir am y cymorth sydd ei angen. Gwnaethom siarad â'r staff gofal sydd â dealltwriaeth dda iawn o anghenion cymorth y bobl. Mae'r cofnodion dyddiol yn nodi'r gofal a'r cymorth a ddarperir, sy'n adlewyrchu'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu yn eu cynlluniau personol. Gwnaethom arsylwi fod y rhyngweithio rhwng y staff gofal a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth mewn ffordd gynnes, cyfeillgar a gofalgar. Mae'r staff gofal yn ymateb i geisiadau am gymorth yn gyflym, pan fydd y bobl yn pwysu'r gloch alw.

Dyweddodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y cymorth y maent yn ei gael. Roedd yr adborth yn cynnwys [*Mae'r Rheolwr*] yn "*out of this world, will do anything for you*", "*I love it*", "*I only have to ring that bell, they do anything for you*", "*[Rwy'n] practically family really*", "*Everyone is so friendly*", [*mae'r gwasanaeth*] "*very good for visiting*" ac "*I have no worries at all*". Gwnaethom hefyd siarad â'r perthnasau a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth. Gwnaethant siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a'r effaith y mae wedi'i gael ar iechyd a llesiant eu hanwyliaid. Gwnaethant ddweud wrthym "*Staff are caring, you don't have to worry*", "*[staff are] brilliant here*". Gwnaethant ddweud eu bod yn cael ymweld â'r gwasanaeth cymaint ag y dymunant, bod y staff yn gyfeillgar iawn ac yn hawdd mynd atynt, ac maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Gwnaeth y bobl siarad yn gadarnhaol am y gweithgareddau a'r teithiau sy'n mynd rhagddynt yn y gwasanaeth. Dywedodd y perthnasau a'r bobl wrthym y byddent yn cael budd o weithgareddau mwy rheolaidd yn mynd rhagddynt. Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwasanaeth yn awyddus i recriwtio cydlynedd gweithgareddau.

Caiff y bobl gymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd. Gwnaethant ddweud wrthym fod y staff gofal yn eu helpu i gael gafael ar wasanaethau iechyd yn ôl yr angen. Gwelsom gofnodion iechyd yn dangos gohebiaeth â gweithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys atgyfeiriadau. Mae'r staff gofal yn cael asesiadau cymhwysedd meddyginiaeth yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gymwys wrth roi meddyginiaeth. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hannibyniaeth o ran rheoli eu cyflyrau iechyd eu hunain, lle y bo'n ddiogel gwneud hynny. Mae'r cynlluniau gofal yn rhoi gwybod i'r staff gofal am sut y mae cyflwr/cyflyrau meddygol y bobl yn cael effaith arnynt, a sut i'w cefnogi yn y ffordd orau. Gwnaethom siarad â gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld a ddywedodd wrthym fod y staff gofal yn rhyngweithio'n dda ac yn dilyn y cyngor a ddarperir.



## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth mewn lleoliad ac amgylchedd sydd â chyfleusterau i'w hybu i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae décor y cartref yn fodern ac yn gartrefol ac mae'n lân ac yn daclus ym mhob rhan ohono. Gwelsom ddewis o ystafelloedd y bobl sy'n gallu cael eu personoli gyda'u heiddo personol, fel lluniau ac ornamentau. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus â'u hystafelloedd. Mae cyfleusterau ym mhob ystafell er mwyn i'r bobl storio eu heitemau'n ddiogel. Caiff y dodrefn ei gynnal a'i gadw'n dda ym mhob rhan o'r cartref. Mae'r bobl yn gallu cael gafael ar gyfarpar arbenigol, fel cymhorthion symudedd a chymhorthion i'w helpu yn ystod amser prydau. Caiff y cyfarpar gofal ei wasanaethu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Mae'r ardaloedd cymunedol yn rhoi cyfle i'r bobl gymdeithasu os dymunant. Gall y bobl ddefnyddio clychau galw pe byddent angen cymorth brys. Mae'r darparwr gwasanaeth yn chwilio am arwyddion dwyieithog a chymhorthion eraill, a fydd yn helpu'r bobl i symud o amgylch y cartref. Mae systemau ar waith er mwyn cofnodi a rhoi gwybod pryd y caiff unrhyw weithiau o amgylch y cartref eu cwblhau. Mae rhywfaint o ôl traul isel o amgylch y cartref, ond, ar y cyfan, caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae cynlluniau i barhau i adnewyddu. Mae rhai o'r toiledau a'r cyfleusterau golchi eisoes wedi'u hadnewyddu.

Mae gan y darparwr fesurau ar waith i nodi a lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Gofynnir i bob ymwelydd lofnodi'r cofnodlyfr ymwelwyr, at ddibenion diogelwch tân. Mae gan y gwasanaeth fesurau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn rheoli'r risg o heintiau. Mae polisi rheoli heintiau ar waith sy'n unol â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth bresennol. Gall yr holl staff gael gafael ar ddigon o Gyfarpar Diogelu Personol. Mae'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar reoli heintiau. Caiff y cyfarpar glanhau ei storio'n ddiogel. Mae cyfyngwyr ffenestri wedi'u gosod lle y bo angen a chânt eu gwirio'n rheolaidd. Mae polisi iechyd a diogelwch ar waith sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r staff yn glir. Mae'r holl wiriadau iechyd a diogelwch, gan gynnwys diogelwch nwy blynyddol, prawf trydanol pob pum mlynedd, diogelwch tân a gwiriadau legionella yn gyfredol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau llywodraethu da i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae gan y darparwr bolisiau a gweithdrefnau ar waith a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y Datganiad o Ddiben yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis ac yn ceisio barn y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, eu perthnasau, y staff a'r gweithwyr proffesiynol. Caiff yr ymweliadau hyn eu cofnodi ac maent yn dangos bod y safle yn cael ei adolygu a bod cofnodion perthnasol yn cael eu cadw, gan gynnwys trefniadau diogelu a chwynion. Caiff unrhyw gwynion a gafwyd eu cofnodi, ynghyd â'r canlyniadau. Caiff yr adroddiadau am adolygiad o ansawdd y gofal eu cwblhau bob chwe mis ac maent yn nodi'r ffyrdd y gall y gwasanaeth wella ac maent yn tynnu sylw at yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda. Caiff archwiliadau rheolaidd o'r trefniadau rheoli meddyginiaeth a heintiau eu cwblhau, sy'n galluogi'r materion i gael eu nodi pe byddent yn codi.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwyllo'r trefniadau ariannol a'r trefniadau ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth. Maent yn parhau i fuddsoddi yn yr adeilad. Mae'r lefelau staffio yn sefydlog a ni chaiff staff asiantaeth eu defnyddio'n aml iawn. Mae'r gwasanaeth wrthi'n recriwtio cydlynedd gweithgareddau ar hyn o bryd, er mwyn cyflwyno gweithgareddau mwy rheolaidd i'r gwasanaeth. Mae digon o gyfarpar diogelu personol a chyflenwadau bwyd yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn parhau i gael hyfforddiant yn rheolaidd. Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol ar waith.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu nifer briodol o staff, sy'n addas ac yn meddu ar wybodaeth, cymhwysedd, sgiliau a chymwysterau i gefnogi'r bobl. Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau personél y staff, a ddangosodd bod gwiriadau recriwtio cadarn yn cael eu cynnal cyn iddynt gael eu cyflogi yn y gwasanaeth, gan gynnwys geiradon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gan yr holl staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac maent wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, y rheoleiddiwr gweithlu, neu maent wedi gwneud cais i gofrestru. Caiff y gwasanaeth ei oruchwyllo bob tri mis a chaiff y staff gyfle i godi materion, cael adborth, adolygu'r anghenion hyfforddi a datblygu, a thrafod bolisiau a gweithdrefnau. Nid yw'r arfarniadau blynyddol a'r cyfarfodydd staff wedi bod yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ond dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth. Rhoddwyd sicrwydd i ni gan y rheolwr y bydd yn rhoi cynlluniau ar waith i ddal i fyny gyda'r arfarniadau a'r cyfarfodydd staff. Dywedodd y staff bod polisi drws agored lle y gallant siarad â'r tîm rheoli ar unrhyw adeg, ac maent yn teimlo'n gyfforddus yn trafod materion os byddant yn codi. Dywedodd y staff "*It's a lovely place*" ac "[eraill] *staff are brilliant*". Mae'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ac mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant arbenigol i ddiwallu anghenion unigol y bobl. Gwnaethom adolygu sampl o



rota'r staff a ddangosodd bod y gwasanaeth yn darparu trefniadau staffio yn unol â'r Datganiad o Ddiben.

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

## Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 13/11/2023**